COMISIYNYDD
HEDDLU A THROSEDDU
DYFED-POWYS
POLICE AND CRIME
COMMISSIONER

TAFLEN ADRODDIAD / CRYNODEB PENDERFYNIAD

DIBEN: PENDERFYNIAD – CYF. DLI077

Amseru: Arferol

Teitl: Polisi Fetio ar gyfer Contractwyr Safle Dalfa a Gorsaf Newydd Llanelli.

Categori Penderfyniad / Effaith Maes Busnes:
Safonau Proffesiynol/Ystadau

Crynodeb Gweithredol:
Oherwydd maint y prosiect hwn a nifer y contractwyr a fydd yn gysylltiedig ag ef, cyfarfu'r Cyfarwyddwr Ystadau ag Uwch Reolwr yr Adran Safonau Proffesiynol ac Uwch Swyddog Fetio i sefydlu polisi fetio ar gyfer y safle hwn. Cytunwyd:

- **y byddai angen fetio pob Prif Ymgynghorydd a'r Prif Gontractwr sy'n cael mynediad i'r cynllun manwl yn llawn er mwyn gweithio ar y prosiect, a bydd angen iddynt gwblhau Cytundeb Datgelu Data llawn.**
- **mai cyfrifoldeb y Prif Gontractwr fyddai cyflwyno gwybodaeth gynllunio ar gyfer tendr i drydydd partïon, sicrhau eu cytundebau cyfrinachedd, a rheoli'r data o dan ganllawiau HDP.**
- **na fyddai dogfennau cynllunio HDP a gyhoeddir ar gyfer tendr yn dynodi'r defnydd o bob ystafell i'r graddau y mae hynny'n ymarferol. Yn hytrach, defnyddir rhifau ystafell yn hytrach nag enwau Tîm/Defnydd. Byddai HDP yn dal cynlluniau manwl gydag enwau ar ystafelloedd ar gyfer defnydd cyfyngedig gan y tîm cynllunio yn unig, a defnydd mewnol gan SCHTh/HDP.**
- **na fyddai angen i Gontractwyr Pecyn sy'n gweithio ar y prosiect gael eu fetio; byddai hyn yn cynnwys crefftwyr sy'n gwneud gwaith tir, gwaith ar y brif ffrâm/strwythur, y cynllun strwythur mewnol a gwaith gosodiad cyntaf.**
- **y byddai cyfarfod arall yn cael ei gynnal cyn y cam all osodiad rhwng y partïon y sonnir amdanynt uchod er mwyn gwerthuso'r gofyniad fetio'n iawn ar gyfer yr ail osodiad. Rhagwelir y bydd y cam ail osodiad yn digwydd yn ystod 8-12 wythnos olaf y prosiect. Yn ystod y cam hwn, datgelir gwybodaeth sensitif ynglŷn â'r prosiect, megis lleoliadau systemau diogelwch a gosodiadau.**

Argymhelliad:
Gofynnir i'r Comisiynydd adolygu'r wybodaeth uchod a chymeradwyo'r polisi fel y crynhowyd.

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys

Cadarnhaf fy mod wedi ystyried a oes gennyf unrhyw ddiddordeb personol neu sy'n rhagfarnu yn y mater hwn a fy mod wedi gwneud y penderfyniad arfaethedig yn unol ag Egwyddorion Nolan ar gyfer Ymddygiad mewn Bywyd Cyhoeddus.

Rwy'n cymeradwyo'r cais uchod / ~~Nid wyf yn cymeradwyo'r cais uchod /~~ Rwy'n nodi'r wybodaeth sydd wedi'i chynnwys o fewn yr adroddiad (dileer fel y bo'n briodol)

Llofnod: Dafydd Llywelyn **Dyddiad:** 14/6/2018